# CYD-GYFARFOD O'R PWYLLGORAU CRAFFU ADDYSG A PHLANT A A GOFAL CYMDEITHASOL AC IECHYD

Dydd Mercher, 25 Ionawr 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd G. Thomas (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, D.J.R. Bartlett, S.M. Caiach, C.A. Campbell, J.M. Charles, I.W. Davies, W.T. Evans, W.G. Hopkins, P. Hughes-Griffiths, A. James, M.J.A. Lewis, D.J.R. Llewellyn, E. Morgan, D.W.H. Richards, B.A.L. Roberts, E.G. Thomas, J.E. Williams, J. Williams and J.S. Williams

Mrs. V. Kenny – Cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig Rufeinig

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr J. Tremlett, Aelod y Bwrdd Gweithredol dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
S. Smith - Pennaeth Gwasanaethau Plant
M. Palfreman - Pennaeth Cydweithio Rhanbarthol
C. Gadd - Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin - 10.00 - 10.45 am**

## 1. PENODI CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** benodi'r Cynghorydd G. Thomas yn gadeirydd y cyfarfod.

## 2. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr J.D. James, K. Madge a J. Owen yn ogystal â Mrs. E. Heyes (Rhiant-lywodraethwr Ardal Llanelli), Mrs. K. Hill (Rhiant-lywodraethwr Ardal Dinefwr) a Mrs J. Voyle Williams (Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru).

## 3. DATGANIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL

| Y Cynghorydd | Rhif(au) y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd A. James | Cofnod rhif 6 | Mae'n defnyddio'r Gwasanaeth Gofalwyr ac mae ei ferch yn nyrs |

| | | |
|---|---|---|
| Y Cynghorydd J. Lewis | Cofnod Rhif 6 | Mae'n aelod o'r Cyngor Iechyd Cymuned |
| Y Cynghorydd E. Morgan | Cofnod rhif 6 | Mae ei ferch yn nyrs staff |
| Y Cynghorydd D.W.H. Richards | Cofnod rhif 6 | Mae'n defnyddio'r Gwasanaeth Gofalwyr |
| Y Cynghorydd B.A.L. Roberts | Rhif Cofnod 6 | Mae ei merch yn ymwelydd iechyd ac mae'n aelod cyfetholedig o'r Cyngor Iechyd Cymuned. |
| Y Cynghorydd G.Thomas | Rhif Cofnod 6 | Mae ei gŵr yn gyrru ar gyfer Ceir Cefn Gwlad |
| Y Cynghorydd J. Williams | Rhif Cofnod 6 | Mae'n ofalwr di-dâl i'w gŵr |

**4. DATGAN CHWIPIAID PLAID SYDD WEDI EU GWAHARDD**

Ni chafwyd dim datganiadau ynghylch chwip waharddedig.

**5. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD (NID OEDD DIM WEDI DOD I LAW)**

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

**6. Y TREFNIADAU PARTNERIAETH SYDD WEDI'I SEFYDLU YNG NGORLLEWIN CYMRU O DAN RAN 9 O DDEDDF GWASANAETHAU CYMDEITHASOL A LLESIANT (CYMRU) 2014 AC ASESIAD POBLOGAETH GORLLEWIN CYMRU**

Bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiad ynghylch y trefniadau partneriaeth sydd wedi'u sefydlu yng Ngorllewin Cymru o dan Ran 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) ac Asesiad Poblogaeth Gorllewin Cymru cyn iddo gael ei gymeradwyo gan y Cyngor.

Roedd yr adroddiad yn rhoi golwg gyffredinol ar y trefniadau partneriaeth sydd wedi'u sefydlu yng Ngorllewin Cymru i fodloni gofynion Rhan 9 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, a oedd yn cynnwys sefydlu Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol statudol. Nodwyd bod Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gorllewin Cymru ar waith ers Mehefin 2016 a bod y Cylch Gwaith i fod i gael ei adolygu ym mis Rhagfyr 2016. Fodd bynnag, eglurodd y swyddogion y cytunwyd i ohirio cynnal adolygiad llawn o'r Cylch Gwaith tan fis Mawrth 2017. Pwysleisiwyd bod blaenoriaethau rhanbarthol ar gyfer y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, gan gynnwys: comisiynu integredig, cronfeydd ar y cyd, ailfodelu

gwasanaethau iechyd meddwl ac anableddau dysgu, gwybodaeth, cyngor, cymorth/atal a gweithredu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau am y gwaith a wnaed ar ran y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i gwblhau Asesiad Poblogaeth cychwynnol. Roedd yr Asesiad wedi cael ei gymeradwyo gan y Bwrdd ac roedd yn rhaid iddo gael ei gymeradwyo gan y partneriaid statudol, cyn ei gyhoeddi erbyn 31 Mawrth 2017. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod yr Asesiad yn nodi'r anghenion am ofal a chymorth yn y rhanbarth, y gofal a chymorth a ddarperir ar hyn o bryd a'r meysydd y mae angen eu gwella a'u datblygu. Pwysleisiwyd bod llawer o ddata wedi cael ei gasglu ar gyfer yr Asesiad a bod yr ymateb i'r arolygon yn galonogol. Un o brif negeseuon yr Asesiad oedd y twf disgwyliedig yn y galw am wasanaethau yn y degawdau nesaf, ac yn benodol ar gyfer pobl hŷn. Eglurodd y swyddogion y byddai gofal cymunedol ataliol lefel isel yn rhan bwysig o roi sylw i'r angen hwn. Maes arall yr oedd angen rhoi sylw iddo oedd sicrhau bod y gwasanaethau ar gael yn Gymraeg. Roedd y Pwyllgor yn falch bod sylw wedi cael ei roi i bwysigrwydd datblygu defnydd y Gymraeg yn y sector iechyd a gofal. Eglurodd y swyddogion fod angen i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol ddatblygu cynllun ardal, yn sgil cyhoeddi'r Asesiad Poblogaeth, i roi sylw i'r anghenion a nodwyd.

Nododd y Pwyllgor fod un Aelod Etholedig o bob Awdurdod Lleol ar y Bwrdd a holwyd a oedd diffyg democrataidd. Awgrymwyd y byddai'n ddefnyddiol cynyddu nifer yr Aelodau Etholedig ac iddynt fod yn gynrychioladol o'r gymuned. Dywedodd y swyddogion fod y gofynion statudol lleiaf yn cael eu bodloni ar hyn o bryd. Fodd bynnag, roedd y Bwrdd o'r farn y gellid cymryd camau pellach o ran y mater hwn a byddai'n cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad o'r Cylch Gwaith ym mis Mawrth. Nodwyd bod gofalwyr a defnyddwyr gwasanaethau yn cael eu cynrychioli ar y Bwrdd. Pwysleisiodd y Pwyllgor yr opsiwn i gyfethol aelodau ar y Bwrdd ac roedd o'r farn y gallai hyn fod yn fuddiol i helpu'r rhain mewn meysydd a dangynrychiolir, er enghraifft, mewn perthynas â materion megis trafnidiaeth.

Eglurwyd bod un cynrychiolydd ar y Bwrdd o'r Cynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol ar gyfer y tair ardal. Yn ogystal, roedd cynrychiolydd gan sefydliad trydydd sector cenedlaethol a oedd yn helpu i roi safbwynt ehangach. Gofynnodd y Pwyllgor am siart llif, er hwylustod, i ddangos sut y mae'r gwahanol Fyrddau a grwpiau yn gysylltiedig â'i gilydd a'u hatebolrwydd. Byddai'r swyddogion yn ystyried sut i ddatblygu hyn orau a nodwyd nad oedd y prif ddarnau o ddeddfwriaeth, sef Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), yn cysylltu â'i gilydd yn ddi-dor.

Gofynnodd yr Aelodau a ddylid ystyried disgwyliad oes oedolion, yn hytrach na dim ond disgwyliad oes o enedigaeth, gan fod llawer o bobl hŷn yn symud i'r ardal ar oedran ymddeol. Cytunodd y swyddogion fod angen gwasanaethau o hyd ar bobl hŷn sy'n dod i'r ardal ac y gallant fod yn ased cymunedol gwerthfawr wrth ddatblygu gwasanaethau ataliol. Cadarnhawyd hyn gan yr Aelod o’r Bwrdd Gweithredol dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd, a oedd yn cynrychioli'r Cyngor ar y Bwrdd.

Gofynnodd yr Aelodau a oedd y Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol yn haen arall o fiwrocratiaeth. Pwysleisiodd y swyddogion pe na bai'r Bwrdd wedi cael ei ddatblygu yn y ffordd iawn y gallai hynny fod yn wir, ond roedd wedi cael ei ddatblygu i symleiddio gweithio mewn partneriaeth ac roedd gwir ddymuniad gan yr holl bartneriaid i gydweithio.

Gofynnodd yr Aelodau pa ddata oedd wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer yr Asesiad Poblogaeth gan fod pryderon nad oedd y data a ddefnyddiwyd yn gyfredol o bosib. Eglurodd y swyddogion fod amrywiaeth o ffynonellau data yn cael eu defnyddio, a oedd yn cynnwys set ddata gan Uned Ddata Cymru a data a ddiweddarwyd yn rheolaidd ar sail ranbarthol.

Roedd y Pwyllgor o'r farn bod cyllidebau cyfun yn gam cadarnhaol ond mynegwyd pryder ynghylch sut y byddent yn cael eu rheoli. Pwysleisiodd y swyddogion y byddai atebolrwydd a meini prawf llym ac y byddai angen hefyd iddynt fod yn ddigon hyblyg i weithio ar draws y system.

Diolchodd y Pwyllgor i'r tîm am eu holl waith.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad.**

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**